# Pwyllgor Datblygu Economaidd

# Adroddiad Blynyddol dan Reol Sefydlog 9.9

# Mai 1999 tan Fawrth 2003

## Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud dan Reol Sefydlog 9.9 sy'n gofyn i bwyllgorau pwnc roi adroddiad i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar eu cynnydd o ran gweithredu eu blaenraglen waith. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau'r Pwyllgor o Fai 1999 tan ddiwedd tymor y gwanwyn 2003.

**Aelodau'r Pwyllgor**

2. Dyma aelodau'r Pwyllgor ar hyn o bryd: Chris Gwyther (Cadeirydd), Mick Bates, Alun Cairns, Chris Chapman, Andrew Davies (y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd), Ron Davies, Alison Halford, David Ian Jones, Elin Jones, Dafydd Wigley a Phil Williams.
3. Mae'r Aelodau Cynulliad a ganlyn hefyd wedi bod yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod y pedair blynedd cyntaf: Val Feld, Ann Jones, Rhodri Morgan, Brian Hancock, Helen Mary Jones, Michael German, Brian Gibbons, Glyn Davies a David Davies**.** Val Feld oedd Cadeirydd y Pwyllgor am y rhan fwyaf o'r ddwy flynedd gyntaf. Ymddiswyddodd fel Cadeirydd oherwydd salwch ac yn drist iawn bu farw ym mis Gorffennaf 2001. Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi cyfraniad a wnaed ganddi o ran sicrhau bod y Pwyllgor yn dilyn y trywydd iawn.

**Cylch Gwaith y Pwyllgor**

4. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Mewnfuddsoddi, hyrwyddo cwmnïau cynhenid a datblygu rhanbarthol.
- Materion economaidd Ewropeaidd, gan gynnwys cronfeydd strwythurol.
- Polisi diwydiannol a chymorth busnes, gan gynnwys materion cyflogaeth sy'n ymwneud â galw (isafswm cyflog, amser gweithio, etc).
- Arloesi ac ynni.
- Twristiaeth.
- Datblygu ac adfywio trefol.
- E-Weinidog â chyfrifoldeb am gydgysylltiad strategol materion sy'n ymwneud â TGCh.

5. Mae hyn yn golygu goruchwylio Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a'r Bwrdd Croeso (WTB).

6. Mae cyfrifoldebau pwyllgorau pwnc wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog – copi yn Atodiad A.

**Blaenoriaethau'r Pwyllgor**

7. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae blaenoriaethau'r Pwyllgor wedi newid ac mae'n credu mai ei rôl yw adeiladu economi flaengar, ddeinamig a mwy amrywiol lle mae pawb yn cael cyfle i ffynnu. Ymhlith ei flaenoriaethau y mae helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisïau newydd ac archwilio polisïau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn dod o hyd i'r atebion gorau posib ar gyfer pobl Cymru.
8. Mae'r Pwyllgor wedi gorfod ymateb, wrth bennu ei flaenoriaethau, nid yn unig i newidiadau ym mlaenoriaethau'r Llywodraeth ond hefyd i ddylanwadau o'r tu allan. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, treuliodd aelodau llawer o amser yn canolbwyntio ar lwyddiant y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Roeddent yn sylweddoli bod y rhain yn gyfle allweddol i Gymru a fyddai'n gallu sbarduno sawl agwedd ar Strategaeth Datblygu Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol.
9. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi ehangu ei flaenoriaethau ac mae manylion y rhain yn yr adroddiad hwn. Mae'r Pwyllgor bob amser wedi credu ei bod yn bwysig ystyried themâu trawsbynciol y Cynulliad, sef cynaliadwyedd, cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal**.** Mae'r ystyriaethau hyn wedi bod yn ganolog i'r holl drafodaethau ar yr economi yn gyffredinol ac maent wedi dod i'r amlwg yn ystod sawl trafodaeth.
10. Wrth helpu i ddatblygu polisïau newydd, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ei adolygiadau ei hunan o Wasanaethau Cymorth a Datblygiad Busnes a Pholisi Ynni yng Nghymru a ddisgrifir yn fwy manwl yn yr adroddiad hwn**.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal archwiliad o bolisïau yng Nghymru o ran datblygu TGCh Band Llydan ac mae wedi adrodd ar y rhain.

**Cyfarfodydd a gynhaliwyd**

11. Erbyn diwedd tymor y gwanwyn 2003 bydd y Pwyllgor wedi cynnal 72 cyfarfod ffurfiol. Mae wedi credu ei bod yn bwysig bod pobl ledled Cymru yn cael y cyfle i fynychu cyfarfodydd ac mae wedi cynnal sawl cyfarfod anffurfiol y tu allan i Gaerdydd yn Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Caerdydd yn Wrecsam, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne ac yn fwy diweddar yn Shotton Paper ar Lannau Dyfrdwy.
12. Yn ogystal â'r rhain, mae'r Pwyllgor wedi cynnal nifer o gyfarfodydd anffurfiol/sesiynau briffio a sioeau teithiol gan gynnwys ymweliadau mewn perthynas â'i adolygiadau polisi. Aeth y Pwyllgor i Ddulyn a Brwsel fel rhan o'i adolygiad o Gymorth Busnes ac, ar gais Gweinyddiaeth Dramor yr UD, mae wedi ymweld â'r UD er mwyn ystyried adfywio cymunedol yn arbennig a'r materion sy'n ymwneud â datblygu TGCh Band Eang. Aeth y Pwyllgor hefyd i ardal y Västra Götaland yn Sweden i ymchwilio i faterion tebyg.

**Dull o Weithio**

13. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pa mor gyflym mae'r economi'n symud ac mae wedi bod yn flaenoriaeth ganddo gadw golwg ar faterion o bwys a materion sy'n datblygu. Er mwyn gwneud hyn, mae wedi ceisio trefnu ei agenda mewn ffordd hyblyg fel ei fod yn gallu ymateb i faterion brys fel maent yn codi. Ar sawl achlysur, mae wedi cynnal cyfarfodydd ar fyr rybudd gydag amrywiaeth o gyrff er mwyn trafod materion allweddol er engrhaifft pan gymerwyd Hyder drosodd, pan gollodd pobl eu swyddi yn Corus ac adeg clwy'r traed a'r genau.
14. O gofio pa mor eang yw'r maes datblygu economaidd, mae'r Pwyllgor wedi gweithio'n glòs gyda phwyllgorau pwnc eraill ar faterion o ddiddordeb cytûn. Roedd hyn yn cynnwys nifer o gyfarfodydd ar y cyd gyda'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd i drafod y broses o ddirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben; sesiwn ar y cyd gyda'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i archwilio pecyn cymorth y Gweinidog i liniaru effeithiau'r colli swyddi yn ffatrioedd Corus yng Nghymru a chyda Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ystyried prynu Hyder gan Dwr Cymru.
15. Mae aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd hefyd wedi cael eu gwahodd i ymuno yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i drafod y Cynllun Adfer Gwledig yn dilyn clwy'r traed a'r genau a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ystyried sut y gall tai newydd gyfrannu at adfywio cymunedol. Estynnodd y Pwyllgor wahoddiad agored i aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth fynychu'r holl gyfarfodydd perthnasol a oedd yn ymwneud â'i Adolygiad o'r Polisi Ynni.
16. Mae hi wedi bod yn werthfawr iawn gweithio gydag eraill ac mae'r Pwyllgor yn credu y bydd hyn yn flaenoriaeth bwysig yn y dyfodol.

**Gwaith a llwyddiannau**

***RhS 9.7(i)* - cyfraniad at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog Cynulliad yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;**

Adolygiad o Wasanaethau Cymorth a Datblygiad Busnes

17. Fel rhan o'i adolygiad polisi cyntaf, bu'r Pwyllgor yn ystyried effeithiolrwydd y cymorth busnes sydd ar gael ar hyn o bryd, pa mor effeithiol yw'r cymorth ac i ba raddau y mae gorgyffwrdd rhwng gwahanol wasanaethau. Cyhoeddwyd ei adroddiad, sef Adolygiad o Gymorth a Datblygiad Busnes ym mis Ionawr 2001 a rhyddhaodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ef i ddibenion ymgynghori yn dilyn y ddadl yn y cyfarfod llawn ar 8 Chwefror 2001. Cyflwynwyd crynodeb cychwynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2001 ond bryd hynny roedd nifer o sefydliadau allweddol wedi dweud na allent ond roi barn derfynol yng nghyd-destun yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, nad oedd eto wedi dod i ben. Cyflwynwyd adroddiad arall i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ym mis Hydref 2001.
18. Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn y rhan fwyaf o'u hargymhellion

ond roedd yn siomedig iawn o glywed y penderfyniad i beidio â sefydlu bwrdd polisi economaidd, o gofio bod pob un o'r pleidiau, a'r Pwyllgor yn unfrydol, wedi cefnogi'r argymhelliad hwnnw.

19. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn parhau i gymryd diddordeb yn yr argymhellion allweddol y mae'r Gweinidog wedi'u gweithredu gan gynnwys sefydlu Panel Cynghorol ar Ymchwil Economaidd a throsglwyddo Cyswllt Busnes i'r WDA. Mae wedi parhau i ddilyn trywydd y polisïau hyn yn agos iawn.

Adolygiad o Bolisi Ynni Cymru

20. Dechreuodd y Pwyllgor ar ei ail adolygiad polisi ym mis Tachwedd 2001. Roedd yn cydnabod bod polisi ynni'n rhywbeth a oedd yn cynnwys nid yn unig Cymru a'r DU ond hefyd Ewrop a gweddill y byd. Roedd felly'n credu ei bod yn bwysig cychwyn ar yr adolygiad hwn o safbwynt ymarferol ac edrych ar y materion arbennig a oedd yn wynebu Cymru yng nghyd-destun yr angen i sicrhau cynaliadwyedd y ffynonellau cyflenwi ac effeithiau mwy cyffredinol cynhesu byd-eang. Er mwyn sicrhau na fyddai'r adolygiad yn peri oedi wrth benderfynu ynghylch buddsoddi neu ddatblygu o fewn y sector ynni penderfynodd fynd i'r afael â'r mater fesul cam.

21. Clywodd dystiolaeth gan ystod eang o ffynonellau ac mae wedi llunio dau adroddiad er mwyn ymgynghori arnynt. Rhyddhawyd yr adroddiad cyntaf ar Ynni Adnewyddadwy i ddibenion ymgynghori ym mis Ebrill 2002 ac roedd y Pwyllgor yn falch iawn ei fod wedi ysgogi trafodaeth eang ar faterion a oedd yn anodd ac yn aml iawn yn gynhyrfiol. Bu'r Pwyllgor yn ystyried barn pawb a lluniodd adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2003. Ymatebodd y Gweinidog i'r adroddiad mewn datganiad yn y cyfarfod llawn ar 5 Mawrth 2003. Roedd a wnelo'r ail adroddiad ymgynghori ag Effeithiolrwydd Ynni a dechreuwyd ymgynghori arno ym mis Rhagfyr 2002. Bydd y Pwyllgor yn llunio adroddiad terfynol cyn diwedd tymor y gwanwyn ac mae'n disgwyl i'r Llywodraeth ymateb i hwnnw ar ôl yr etholiad.

Cymru'n Ennill

22. O'r cychwyn cyntaf, roedd y Pwyllgor yn credu bod ar Gymru angen Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol glir a threuliodd lawer o amser yn helpu'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i ddatblygu hon. Yn ystod y cyfnod yr oedd y Gweinidog yn drafftio'r strategaeth, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan amrywiaeth eang o sefydliadau er mwyn ceisio nodi'r blaenoriaethau yn fwy manwl. Yn gynnar yn 2001, soniodd aelodau am eu pryder am yr adroddiad yn ei ffurf bresennol ond nododd mai bwriad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd oedd ei gyhoeddi fel sail ar gyfer ymgynghori. Ym mis Chwefror 2001, cyflwynodd y Gweinidog yr adroddiad i'r cyfarfod llawn fel sail ar gyfer ymgynghori.

23. Ar ôl ymgynghori, cyhoeddwyd yr adroddiad fel Cymru'n Ennill ym mis Ionawr 2002. Roedd sawl aelod o hyd yn teimlo bod yr adroddiad yn annigonol am nad oedd ynddo ddigon o fanylion am bolisïau, adnoddau a thargedau realistig. Gan fod y ddogfen hon yn ganolog i strategaeth economaidd Llywodraeth y Cynulliad, mae'r Pwyllgor wedi parhau i fonitro perfformiad yn

erbyn y strategaeth.

Polisi Band Eang yng Nghymru

24. Er nad yw'r Pwyllgor wedi lansio adolygiad o TGCh Band Eang yn ffurfiol mae wedi bod yn ystyried argaeledd TGCh Band Eang yng Nghymru ers peth amser. Mae wedi ystyried gwahanol bapurau ar adegau gwahanol gan amrywiaeth o ffynonellau a hefyd wedi bod yn ystyried y mater wrth iddo ymweld â'r Unol Daleithiau a Sweden, ac roedd o'r farn ei bod yn briodol iddo baratoi adroddiad yn crynhoi ei gasgliadau.
25. Yn ogystal â'i adolygiad ei hun, mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at adolygiadau polisi pwyllgorau pwnc eraill. Cyfrannodd at adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o Addysg Uwch yng Nghymru yn enwedig mewn perthynas â'r cysylltiadau hanfodol sydd eu hangen rhwng addysg uwch a datblygu economaidd. Bu'n ystyried ac yn cynnig cyngor ar effeithiau datblygu economaidd ar yr iaith Gymraeg, mewn cysylltiad â'r adolygiad o'r iaith Gymraeg a oedd yn cael ei gynnal gan y Pwyllgor Diwylliant.

***SO 9.7(ii)* - cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu.**

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

26. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae'r Pwyllgor wedi credu ar hyd yr amser ei bod yn flaenoriaeth i sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Mae'n trafod y rhain yn rheolaidd gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, a hefyd mae'n derbyn adroddiadau chwarterol rheolaidd gan Brif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Chadeiryddion Pwyllgorau Monitro'r Rhaglenni (PMC).
27. Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio yn bennaf ar sicrhau bod mwy o bobl yn gallu manteisio ar y cronfeydd strwythurol drwy'r sectorau gwirfoddol a phreifat gan sicrhau'n arbennig bod cynrychiolaeth o blith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a hefyd yn fwy diweddar er mwyn ceisio osgoi dadrwymo.
28. Mae'r Pwyllgor hefyd yn poeni am ddyfodol y cronfeydd hyn yn sgil ehangu'r UE ac mae wedi trafod y mater hwn sawl gwaith. Aeth aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i gynhadledd ym mis Mai 2002 yng Nghomisiwn Ewrop, Brwsel, er mwyn trafod Adroddiad Cydlyniad CE ac mae o hyd yn derbyn papurau ar gynnydd.

Archwilio gwaith Gweinidogion yn rheolaidd

29. Mae'r Pwyllgor bob amser yn credu ei bod yn bwysig ei fod yn archwilio gwaith y Gweinidog Datblygu Economaidd yn ofalus. Ar gyfer pob cyfarfod, mae wedi darparu adroddiad ysgrifenedig yn rhoi manylion y datblygiadau diweddaraf ac mae wedi ymateb i faterion a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol. Mae hefyd wedi sôn am y newyddion diweddaraf ym

mhob cyfarfod sy'n ymwneud â digwyddiadau mwy cyfredol. Treuliwyd rhan sylweddol o'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn trafod yr adroddiadau hyn.

30. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau dadansoddol rheolaidd ar yr economi ar ffurf Adroddiad Economaidd Chwarterol ar Gymru a'r Bwletin Ystadegol Chwarterol ac adroddiad chwarterol ar weithredu'r cynllun Cymorth Dewisol Rhanbarthol.
31. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fonitro datblygiad ystadegau economaidd ac mae'n credu ei bod yn hanfodol bod y Llywodraeth yn meddu ar wybodaeth gadarn a all fod yn sail i'r gwaith o fonitro a chynllunio'r economi. Mae wedi cael rhai sesiynau anffurfiol er mwyn ceisio dysgu am y ffigurau yn fwy manwl ac yn ddiweddar mae wedi bod yn trafod y problemau o gynhyrchu ffigurau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth cyfoes â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

***<u>RhS 9.7(iii)</u> - cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat:***

<u>Awdurdod Datblygu Cymru</u>

32. Mae'r Pwyllgor yn gweithio'n glòs ag Awdurdod Datblygu Cymru. Mae wedi bod yn rhoi ystyriaeth reolaidd i'r llythyr cylch gwaith i'r Awdurdod ar y cyd â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a chynlluniau corfforaethol drafft, cynlluniau busnes a pherfformiad alldro'r Awdurdod bob hanner blwyddyn gyda'r Prif Weithredwr. Mae hefyd wedi bod yn ystyried rôl y WDA o ran gweithredu'r argymhellion sy'n deillio o Adolygiad y Pwyllgor o Gymorth a Datblygiad Busnes. Roedd y Pwyllgor yn rhan amlwg o'r Adolygiad Pum Mlynedd o'r WDA gan roi sylwadau ar ganlyniadau cam un a'r adroddiad terfynol.

<u>Bwrdd Croeso Cymru</u>

33. Mae gan y Pwyllgor berthynas waith agos â'r Bwrdd Croeso ac mae'n ystyried ei lythyr gylch gwaith bob blwyddyn gyda'r Gweinidog. Mae'n ystyried cynlluniau corfforaethol, cynlluniau busnes a pherfformiad alldro'r Bwrdd bob hanner blwyddyn gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Bu hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar y cylch gwaith ar gyfer adolygiad Pum Mlynedd y Bwrdd Croeso ac yn ystyried yr adroddiad drafft ym mis Tachwedd 2002**.** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor hefyd wedi bod yn derbyn gwybodaeth gan y Bwrdd Croeso ar wahanol ddatblygiadau gan gynnwys ei gynigion ar gyfer Cynllun Cofrestru Statudol ar gyfer Llety i Dwristiaid.

<u>Bae Caerdydd</u>

34. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ers y dyddiau cynnar am y trefniadau o ran datblygu Bae Caerdydd a'r morglawdd ar ôl dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben. Yn 2000 cafodd wybod am y sefyllfa ddiweddaraf gan yr Arglwydd Faer. Gofynnodd i Grosvenor Waterside gyflwyno

papur yn rhoi safbwynt masnachol ar ddatblygu Bae Caerdydd ac ym mis Ionawr 2002 bu'n ystyried y cynllun busnes hir-ddisgwyliedig ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd a chyflwynodd sylwadau i'r Arglwydd Faer. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio ar Fae Caerdydd. Mae'r Pwyllgor dal yn awyddus i weld y buddsoddiad hwn yn dod â budd i Gymru gyfan ac mae'n teimlo ei bod yn bwysig parhau i'w oruchwylio.

***RhS 9.8 – cyfrifoldebau eraill***

Y Gyllideb Datblygu Economaidd

35. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn rhan o'r gwaith o bennu blaenoriaethau ar gyfer cyllideb datblygu economaidd y Cynulliad bob blwyddyn. Bob blwyddyn mae wedi bod yn archwilio perfformiad o ran gwariant yn y blynyddoedd cyfredol a blaenorol cyn ystyried blaenoriaethau'r Gweinidog Datblygu Economaidd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bob blwyddyn mae'n ystyried y rhan o gyllideb fanwl y Cabinet sy'n ymwneud â datblygu economaidd. Mae hefyd wedi derbyn adroddiadau gan y Gweinidog pan wnaed newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Penodiadau Cyhoeddus

36. Mae Aelodau'r Pwyllgor wedi bod yn rhan o'r gwaith o benodi Cadeirydd newydd y WDA ac aelodau i fyrddau'r WDA a'r WTB.

**Atodiad A.**

**CYFRIFOLDEBAU’R PWYLLGORAU PWNC**

Mae Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8 yn nodi cyfrifoldebau Pwyllgorau Pwnc:

Bydd pob pwyllgor pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu: a
iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;

ii. yn cynnig cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
iii. yn cyflawni ei swyddogaeth o dan reol sefydlog 21 (cwynion);
iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; a
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd.

O dan Reol Sefydlog 9.9 mae'n rhaid i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglenni gwaith treigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf.

**Atodiad B**

**THEMÂU ARFAETHEDIG AR GYFER Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD NEWYDD**

**Cefndir**

1. Yn ôl Deddf Llywodraeth Cymru, rhaid i swyddogaethau Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad gyd-fynd â phortffolios Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad. Felly, nid oes sicrwydd y bydd Pwyllgor Datblygu Economaidd ar gael ar ôl yr etholiad, nac ychwaith y bydd ei gylch gwaith yr un fath â chylch gwaith y Pwyllgor cyfredol, neu'n debyg iddo. Ond, mae'n debygol y bydd cylch gwaith un o'r pwyllgorau yn cyfateb i lawer o waith y Pwyllgor Datblygu Economaidd.
2. Y Pwyllgor newydd fydd yn penderfynu ar ei raglen waith a'i flaenoriaethau. Ond awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgorau Pwnc newydd yn derbyn papurau 'etifeddiaeth' sy'n tanlinellu'r materion hynny y mae'r Pwyllgorau cyfredol yn credu y dylent eu hystyried wrth bennu'u rhaglenni gwaith.

**Gwaith craidd**

3. Yr oedd gwaith craidd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ymwneud â'r economi yn gyffredinol, gwaith y ddau brif Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ym maes datblygu economaidd, sef Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, a gwaith Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wrth reoli Cronfeydd Strwythurol yr UE. Mae monitro'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i roi Cymru'n Ennill ar waith a goruchwylio hynt y Cronfeydd Strwythurol yn allweddol i'n gwaith. Bydd y Pwyllgor newydd yn debygol o fod yn awyddus i barhau i fonitro hynt Cymru'n Ennill.
4. Mae'n debygol mai un o'r prif faterion y bydd y Pwyllgor newydd am fynd i'r afael ag ef fydd datblygu'r cronfeydd strwythurol ar ôl 2006, ac yn enwedig y trefniadau trosiannol a fydd ar waith pan ddaw'r cymorth sydd ar gael i Gymru o'r cronfeydd strwythurol cyfredol i ben. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cychwyn ar ymarfer ymgynghori allweddol ym mis Mai a bydd angen i'r Pwyllgor newydd chwarae rôl yn yr ymgynghoriad hwnnw ac ymateb yn

swyddogol iddo.

5. Pwnc allweddol arall fydd datblygu gwaith y Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd, sef yng ngolwg y PDE, un o brif feysydd gwaith y Cynulliad.

**Adolygiadau Polisi**

6. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal dau adolygiad polisi pwysig. Yn gyntaf, cynhaliwyd Adolygiad o Wasanaethau Cymorth a Datblygu i Fusnesau. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2001. Yn ail, cynhaliwyd Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru. Paratowyd dau adroddiad ymgynghori a dau adroddiad terfynol. Daeth y cam cyntaf ar Ynni Adnewyddadwy i ben ym mis Ionawr 2003 a daeth cam dau ar Effeithlonrwydd Ynni i ben ym mis Mawrth 2003.

7. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu dau faes y byddai modd cynnal Adolygiadau ohonynt yn y dyfodol:

a. **Yr angen am bolisi gwyddoniaeth cynhwysfawr i'r Cynulliad Cenedlaethol.** Ym mis Tachwedd y llynedd, mynegwyd pryderon mewn papur i'r Pwyllgor (EDC 17-02(p2)) fod Cymru'n gwario llawer llai ar wyddoniaeth na gweddill y DU. Er bod polisïau da ar waith yng Nghymru i hyrwyddo arloesedd, nid ydynt mor werthfawr heb sylfaen wyddoniaeth iach. Yn dilyn papur gan Lywodraeth y Cynulliad (EDC 06-03 (p4), cafwyd trafodaeth bellach yng nghyfarfod diwetha'r Pwyllgor ar 3 Ebrill. Yn ystod y trafodaethau, cafwyd cryn gefnogaeth draws-bleidiol i'r farn bod ar Gymru angen polisi gwyddoniaeth a thechnoleg cydlynol a fydd yn datblygu seilwaith ymchwil a datblygu cryf yng Nghymru, yn ogystal ag arloesedd a masnach. Mae hwn, medd y Pwyllgor, yn faes blaenoriaerth y dylid ei ystyried ymhellach yn fanwl.
b. **Mwy o waith ar yr adolygiad ynni.** Roedd yr Adolygiad diweddaraf yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Yn ystod yr Adolygiad, trafodwyd mynd ati nesaf i ystyried effaith y tueddiadau o ran cyflenwi ynni a phrisiau ynni ar ddiwydiant Cymru, ac a oedd angen i'r Cynulliad weithredu ar hyn. Ymhlith y materion eraill y byddai modd eu trafod ynghylch prif sectorau ynni Cymru y mae: glo, niwclear, olew, nwy a thrydan a'r materion y maent yn eu hwynebu. Yn ogystal, byddai modd ystyried materion sy'n ymwneud â morglawdd arfaethedig Hafren ac ynni'r môr yn fwy cyffredinol.

8. Yn y gorffennol, seiliwyd Adolygiadau'r Pwyllgor ar gylchoedd gorchwyl eang ac yr oedd angen gwneud llawer o waith a chasglu llawer o dystiolaeth. Yr oedd angen neilltuo cyfnod sylweddol i wneud hynny. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor newydd ystyried cynnal Adolygiadau mwy penodol er mwyn dod i gasgliadau penodol yn gynt.

**Materion penodol y mae'r Pwyllgor wedi mynegi diddordeb ynddynt**

9. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Pwyllgor newydd yn gwybod am yr agweddau parhaus ar waith y Pwyllgor hwn. Yn ogystal â chael adroddiadau rheolaidd ym mhob cyfarfod oddi wrth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, mae'r Pwyllgor wedi derbyn cyfres reolaidd o

adroddiadau 'ffeithiol'. Yn eu plith y mae:

- Adroddiad Chwarterol ar Gronfeydd Strwythurol yr UE;
- Adroddiad Economaidd Chwarterol;
- Bwletin Ystadegol Chwarterol;
- Adroddiad ar Gymorth Rhanbarthol Dewisol a Grant Buddsoddi'r Cynulliad.

10. Yn ogystal â'r gwaith 'craidd', roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig cadw llygad ar nifer o faterion penodol. Mae wedi gofyn am adroddiadau rheolaidd ynghylch:

- y broses o roi argymhellion yr Adolygiad o Wasanaethau Cymorth a Datblygu i Fusnesau ar waith, ac yn enwedig, gwaith y Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd a hynt Cyswllt Busnes;
- Hynt y broses o roi ar waith argymhellion dau adroddiad yr Adolygiad Ynni, ac yn enwedig y camau i ddatblygu ynni adnewyddadwy ac i wella effeithlonrwydd ynni;
- y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth;
- Cymru o Blaid Arloesedd (y Cynllun Gweithredu Arloesedd);
- Cynllun Gweithredu Cymru - Busnes a'r Amgylchedd;
- Cofrestru busnesau twristiaeth yn statudol;
- y camau i ddatblygu Cymhorthion Gweithredu a phwerau i roi amrywiadau ariannol ar waith yng Nghymru;
- y Gronfa Datblygu Gwybodaeth (y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n gyfrifol amdani ar hyn o bryd, ond mae'r Pwyllgor wedi awgrymu y dylid ei throsglwyddo i'r portffolio Datblygu Economaidd);
- ehangu'r UE;
- Gwell Rheoleiddio - y camau sy'n cael eu cymryd i ysgafnhau beichiau rheoliadau'r Llywodraeth ar fusnesau;
- y gwaith sy'n parhau i ddatblygu Bae Caerdydd;
- Caerdydd – Prifddinas Diwylliant Ewrop;
- Paratoi ystadegau swyddogol ar economi Cymru;
- Paratoi dangosyddion eraill ar gyfer lles economaidd (h.y. mesuryddion ehangach i ategu ffigurau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth).